



# Canllaw i Ymgysylltu & Gwasanaethau Pobl Ifanc

## Cip cyflym

**Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr ar bobl ifanc yng Nghymru mewn sawl ffordd, gan effeithio ar eu sicrwydd ariannol, iechyd meddwl, sefydlogrwydd tai & gallu i fanteisio ar gyfleoedd addysg & chyflogaeth**

### EFFEITHIAU

#### Straen Ariannol

Cafodd pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig felly'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu neu'n dal ym myd addysg, eu bwrw'n galed gan y cynnydd yng nghostau bwyd, tai ac ynni. Mae llawer yn dweud eu bod yn methu fforddio hanfodion, ac nad yw cyflogau'n codi mor gyflym â chwyddiant

#### Ansawdd Bywyd

Mae costau byw yn codi yn golygu fod llawer o bobl ifanc yn torri ar eu gwario anhanfodol, gweithgareddau cymdeithasol, teithio & hamdden. Mae'r gostyngiad hwn yn ansawdd eu bywydau wedi cyfrannu hefyd at deimlo'n unig ac anfodlon

#### Iechyd Meddwl

Mae pwysau ariannol wedi arwain at straen, gorbryder & phroblemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc. Mae'r ansicrwydd am eu dyfodol, oherwydd tai, swyddi, neu ansicrwydd ariannol, wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n ansicr ac ansefydlog

#### Rhwystrau rhag cael Addysg

Mae costau'n codi wedi'i gwneud yn anoddach i fyfyrwyr dalu costau addysg fel teithio, llety & deunyddiau cyrsiau. Mae rhai pobl ifanc wedi gorfod cymryd swyddi rhan-amser ac astudio ar yr un pryd, gan ychwanegu at y pwysau o gydbwyso gwaith, addysg, a'u bywydau personol.

## Heriau

Nid oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn proses ymgysylltu draddodiadol yn aml gan nad ydynt yn teimlo ei bod yn berthnasol iddynt; maen nhw'n aml yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt ac nad yw eu llais yn cael ei glywed. Mae canfyddiadau negyddol o bobl ifanc yn aml yn creu rhwystr ac yn eu gwneud yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan.

## Cyfleoedd & Atebion Allweddol

- Cynghorau Ieuencid**  
Beth am sefydlu cyngor ieuencid lle y gall grŵp o bobl ifanc gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion, awgrymu mentrau a chynnig adborth ar benderfyniadau'r cyngor.
- Digwyddiadau Ymgysylltu â Phobl Ifanc**  
Trefnwch ddigwyddiadau er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc yn arbennig neu ceisiwch gael gwybod beth sydd ar gael yn eich ardal yn barod a dewiswch gyfleoedd i ymgysylltu.
- Cyfathrebu**  
Mae cyfathrebu a gwaith allestyn rheolaidd yn gallu rhoi gwybod i bobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael. Mae defnyddio llwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol yn gallu helpu cynghorau i gysylltu.
- Cydnabod & Dathlu Pobl Ifanc**  
Mae cydnabod y cyfraniadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud yn eu cymunedau yn gallu cymell ac ysbrydoli eraill
- Partneriaethau & Rhaglenni Addysgol**  
Mae partneru gydag ysgolion, colegau a mudiadau ieuencid yn gallu integreiddio addysg ddinesig i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Mae gweithio mewn partneriaeth â grwpiau ieuencid eraill yn gallu adeiladu perthnasoedd.

Gweithiwch gyda myfyrwyr Dug Caeredin & Fagloriaeth Gymreig i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli

Darparwch grantiau i fudiadau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc yn eich cymuned

Cydweithiwch gyda darparwyr eraill er mwyn darparu gwasanaethau ar eich rhan

## Pam ddylech chi ei wneud?

Trwy chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc, gall cynghorau cymuned & thref ofalu fod eu penderfyniadau yn fwy cynrychioliadol & effeithiol, gan arwain at gymunedau cryfach & mwy cydnherth. Mae pobl ifanc yn cynnig ffyrdd gwahanol o edrych ar broblemau ac atebion unigryw iddynt, ac maent yn aml yn gweld pethau o ongl wahanol i oedolion.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol



## Grymoedd

**Grym** i benodi Cynrychiolyddion Ifanc – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a 118-119

**Grym** i ddarparu adeiladau i'w defnyddio gan glybiau neu gymdeithasau a chanddynt amcanion athletaidd, cymdeithasol neu hamdden – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19

**Grym** i ddarparu ystod eang o gyfleusterau hamdden – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.**  
[admin@onevoicewales.wales](mailto:admin@onevoicewales.wales)

## Diogelu

Rhaid i Gynghorau Cymuned & Thref gyflawni dyletswydd i ofalu wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n arfer gorau i gael Polisi Diogelu sy'n berthnasol i weithgarwch eich Cyngor.

[Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)

**Mae tîm ymgysylltu Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn gweithio gydag oedolion y mae eu gwaith yn effeithio plant a phobl ifanc, gan gynnwys Cynghorau, ac mae'n cynnig sesiwn ragarweiniol i'r UNCRC, a sut all hawliau helpu llunio gwasanaethau ar gyfer plant.**

**Diweddariad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc: Ionawr 2024**

Prosiect GWBR Planed: Pecyn Ymgysylltu â Phobl Ifanc

## Gwasanaethau & Phrosiectau Ar Hyn o Bryd

Mae **Cyngor Ieuenctid Pen-bre & Phorth Tywyn**, sy'n cynnwys pobl ifanc 11-18 oed, yn cydweithio gyda'r Cyngor Tref i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

Mae llawer o gynghorau ledled Cymru, gan gynnwys **Cyngor Cymuned Fan**, yn cynnig gweithgareddau haf ar gyfer pobl ifanc, megis sesiynau sgefrfyddio rhad ac am ddim

Yn 2023, lansiodd **Cyngor Tref Llanelli** Wasanaeth Chwaraeon, Ieuenctid a Gweithgareddau Newydd, gan gydweithio gyda grwpiau cymunedol, ysgolion, a chlybiau chwaraeon i wella a chreu gweithgareddau newydd rhad ac am ddim i bobl ifanc.

Mae **Cyngor Cymuned Offa** yn ariannu gweithwyr chwarae mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Wrecsam i ddarparu gweithgareddau adeg gwyliau ysgol

Trefnodd Cyngor Tref Blaenafon weithdai ffotograffiaeth gyda Llysgenhadon Ieuenctid Treftadaeth y Byd i greu llyfr ac arddangosfa yn amlygu eu gwaith, gan feithrin balchder yn eu hamgylchedd.

Mae Cyngor Tref Castell-nedd wedi penodi myfyriwr lleol yn Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid fydd yn gyswllt allweddol rhwng y Cyngor ac ysgolion y Ward. Mae hi wedi sefydlu rhwydwaith myfyrwyr er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am faterion ieuenctid ac awgrymu mentrau fel hybiau cymdeithasol a mwy o ddigwyddiadau i bobl ifanc..

## Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib



- Cronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol
- Moondance Foundation
- BBC Plant mewn Angen
- Ymddiriedolaeth Cymunedol Cod Post

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau grant effeithiol'**



**Gwylwch Weminar Un Llais Cymru ar Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

## Eisiau Gwybod Mwy?



Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:



[CoLC@onevoicewales.wales](mailto:CoLC@onevoicewales.wales)



<https://bit.ly/3KYHftK>